**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (BRYNMAWR, BLAENAU GWENT I LANBAIDEN, SIR FYNWY) (CLIRFFORDD) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Tachwedd 2021.

Effaith y Gorchymyn fydd creu clirffordd ar y darnau o Gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 1 Tachwedd 2021 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a wnaed, y plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol yn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy NP23 6XB.

Cyngor Sir Fynwy, Siop Un Stop, Neuadd y Farchnad, Cross Street, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5HD.

Llyfrgell Bryn-mawr, Sgwâr y Farchnad, Bryn-mawr NP23 4AJ.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambria, Aberhonddu, Powys LD3 7HP.

Fel arall gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1429458.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 1 Tachwedd 2021, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**THE A465 TRUNK ROAD (BRYNMAWR, BLAENAU GWENT TO GLANBAIDEN, MONMOUTHSHIRE) (CLEARWAY) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1),(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 1 November 2021.

The effect of the proposed Order will be to create a clearway on the lengths of the A465 Trunk Road described in the Schedule to this Notice.

During a period of 6 weeks from 1 November 2021 a copy of this Notice, the made Order and plan and plan may be inspected during normal opening hours at:

Blaenau Gwent County Borough Council, Municipal Offices, Civic Centre, Ebbw Vale NP23 6XB.

Monmouthshire County Council, One Stop Shop, Market Hall, Cross Street, Abergavenny, Monmouthshire NP7 5HD.

Brynmawr Library, Market Square, Brynmawr NP23 4AJ.

Brecon Beacons National Park Authority, Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys LD3 7HP.

Or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1429458.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
b. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 1 November 2021, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darnau o'r cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin o bwynt 312 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod hyd at bwynt 510 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Brynmawr hyd at Gylchfan Main Road, gan gynnwys y gerbytffordd gylchredol o'r enw Cylchfan Main Road.

Y darn o gefnffordd 14 o fetrau o hyd wrth gyffordd Cylchfan Main Road sy'n arwain i Hen Ffordd y Fenni.

Y darn o gefnffordd 9 metr o hyd wrth y gyffordd oddi ar Main Road sy'n arwain i Hafod Road.

Y darn o'r gefnffordd sy'n arwain o Main Road, o'r enw Mynedfa'r Ysgol, hyd at ben dwyreiniol y gilfan danfon/casglu ar gyfer yr ysgol.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Brynmawr hyd at Gylchfan Brynmawr.

Y darn o'r gefnffordd (Ffordd Gyswllt Main Road) o Gylchfan Brynmawr hyd at Gylchfan Main Road.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o linell ildio'r gyffordd.

Y darn o ffordd ymuno y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r dwyrain o fan cychwyn y llain galed fewnol hyd at gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o dapr ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o linell ildio cyffordd Station Road.

**SCHEDULE**

The lengths of the trunk road eastbound and westbound carriageways from a point 312 north west from the centre point of Hafod Footbridge to a point 510m in an easterly direction from the centre point of Glanbaiden Underbridge.

The lengths of the trunk road eastbound exit and entry slip roads at Brynmawr Junction to Main Road Roundabout, including the circulatory carriageway known as Main Road Roundabout.

The 14m length of the trunk road located at the junction at Main Road Roundabout leading to Old Abergavenny Road.

The 9m length of the trunk road located at the junction off Main Road leading to Hafod Road.

The length of the trunk road from Main Road, known as School Access, to the eastern end of the school drop off/pick up layby.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads at Brynmawr Junction to Brynmawr Roundabout.

The length of the trunk road(Main Road Link) from Brynmawr Roundabout to Main Road Roundabout.

The length of the trunk road eastbound exit slip road at Saleyard Junction that extends from the A465 eastbound carriageway to a point 20m southwest from the junction's give way line.

The length of the trunk road eastbound entry slip road at Saleyard Junction that extends from a point 40m east of the start of the nearside hard shoulder to the A465 eastbound carriageway.

The length of the trunk road westbound exit taper at Saleyard Junction that extends from the A465

Y darn o dapr ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Saleyard sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o linell ildio cyffordd Station Road hyd at gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465.

Y darn o dapr ymrannu ategol tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol cyffordd Station Road, Gilwern.

Y darn o dapr uno ategol tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern sy'n ymestyn o bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol cyffordd Station Road, Gilwern hyd at gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Glanbaiden sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 hyd at gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd Glanbaiden sy'n ymestyn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 hyd at gerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden.

westbound carriageway to a point 20m north of Station Road junction's give way line.

The length of trunk road westbound entry taper at Saleyard Junction that extends from a point 20m north of Station Road junction's give way line to the A465 westbound carriageway.

The length of the trunk road eastbound auxiliary diverge taper at Gilwern Junction that extends from the A465 eastbound carriageway to a point 21m southwest from Station Road, Gilwern junction's centre line.

The length of the trunk road eastbound auxiliary merge taper at Gilwern Junction that extends from a point 21m southwest from Station Road, Gilwern junction's centre line to the A465 eastbound carriageway.

The lengths of the trunk road eastbound exit and entry slip roads at Glanbaiden Junction that extend from the A465 eastbound carriageway to Glanbaiden Roundabout circulatory carriageway.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads at Glanbaiden Junction that extend from the A465 westbound carriageway to Glanbaiden Roundabout circulatory carriageway.